Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaethu)

Chwefror 2019

## Cyflwyniad

**1.** Yn ei gyfarfod ar 13 Chwefror 2019, trafododd Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig (y Pwyllgor) Cynulliad Cenedlaethol Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaethu).

## Cefndir

**2.** Ar 17 Ionawr 2019, gosododd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaethu) (y Memorandwm), sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd.

**3.** Ar 22 Ionawr 2019, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig i'w drafod, gan bennu 1 Mawrth 2019 fel dyddiad cau ar gyfer adrodd yn ôl.

**4.** Mae dadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol cysylltiedig wedi ei threfnu yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Mawrth 2019. Yn y ddadl hon, gofynnir i'r Cynulliad gydsynio â'r darpariaethau perthnasol yn y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaethu) (fel y'u hamlinellir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol).

## Trosolwg o'r Bil

**5.** Mae'r Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaethu) (y Bil) yn Fil Aelod Preifat. Fe'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13 Mehefin 2018. Mae'n Fil byr sydd â dau gymal.

**6.** Amcan polisi'r Bil yw cynyddu'r amddiffyniad i anifeiliaid gwasanaethu trwy ddiwygio adran 4 Deddf Lles Anifeiliaid 2006 (Deddf 2006). Mae'n mynd i'r afael â phryderon y cyhoedd ynghylch cymhwyso adran 4(3)(c)(ii) o Ddeddf 2006 i ymosodiadau ar anifeiliaid gwasanaethu lle gallai diffynnydd a gyhuddir o achosi dioddefaint diangen i anifail haeru ei fod yn amddiffyn ei hun a bod cyfiawnhad defnyddio grym corfforol yn erbyn anifail gwasanaethu gan achosi dioddefaint angenrheidiol iddo i bob pwrpas.

**7.** Mae'r Bil yn diwygio adran 4 o Ddeddf 2006 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i lys ddiystyru'r ystyriaeth yn adran 4(3)(c)(ii) o Ddeddf 2006 o dan amgylchiadau penodol wrth asesu a oedd dioddefaint yn ddiangen yng nghyd-destun achosi dioddefaint i anifail gwasanaethu.

## Y darpariaethau yn y Bil y gwneir cais am gydsyniad â hwy

**8.** Ceisir cydsyniad y Cynulliad i'r ddau gymal yn y Bil.

### Cymal 1: Niweidio anifail gwasanaethu

**9.** Mae'r cymal hwn yn diwygio adran 4 o Ddeddf 2006 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i lys ddiystyru'r ystyriaeth yn adran 4(3)(c)(ii) o Ddeddf 2006 o dan amgylchiadau penodol wrth asesu a oedd dioddefaint yn ddiangen yng nghyd-destun achosi dioddefaint i anifail gwasanaethu. Mae'r cymal yn darparu ar gyfer diystyru'r ystyriaeth os oedd yr anifail o dan reolaeth swyddog perthnasol adeg yr ymddygiad a'i fod yn cael ei ddefnyddio gan y swyddog bryd hynny wrth i'r swyddog gyflawni'i ddyletswydd, mewn ffordd a oedd yn rhesymol ym mhob amgylchiad, ac nad y swyddog yw'r diffynnydd a gyhuddir o achosi'r dioddefaint diangen.

### Cymal 2: Cwmpas, cychwyn a theitl byr

**10.** Mae'r cymal hwn yn darparu bod y Bil yn cwmpasu Cymru a Lloegr ac y daw'r Bil i rym ddeufis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol. Mae cymal 2 hefyd yn nodi teitl byr y Bil.

## Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru mewn Bil y DU

**11.** Mae'r Memorandwm yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil hwn:

> "Mae lles anifeiliaid yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a barn y Llywodraeth yw ei bod hi'n briodol delio â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Senedd y DU am resymau amser ac ystyrlondeb. Mae darpariaethau'r Bil yn gyson ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru ynghylch hyrwyddo lles anifeiliaid. Bydd mynd â'r darpariaethau hyn yn eu blaenau yn y Bil hwn yn golygu y rhoddir yr un amddiffyniad i anifeiliaid gwasanaethu yng Nghymru yr un pryd â'r rheini yn Lloegr."

**12.** Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hefyd yn nodi, ym marn Llywodraeth Cymru, ei bod yn "briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn i'r DU gan mai hwn yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur er mwyn galluogi i'r darpariaethau hyn fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru".

## Ein barn

**13.** Mae'r Pwyllgor yn nodi amcanion polisi'r Bil. Mae'n gofyn am sicrwydd nad yw'r newidiadau arfaethedig yn arwain at lastwreiddio hawliau dinasyddion, nad ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol nac o dan amheuaeth o gymryd rhan mewn gweithgarwch o'r fath, i amddiffyn eu hunain rhag niwed yn achos ymosodiad diwarant gan anifail gwasanaethu.

**14.** Mae'r Pwyllgor yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil hwn. Ni chafwyd unrhyw reswm i beidio â chytuno ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Memorandwm.